

Grieg: ANITRA'S DANCE [PEER GYNT SUITE No.1, Opus 46]

Ffurf ac adeiledd:

Gellid dadansoddi'r darn hwn fel ffurf **ddeuaidd** neu **deiran** am nifer o resymau cerddorol. Mae cynllun cyffredinol y symudiad fel a ganlyn:

Rhagarweiniad	Adran A (ailadrodd)	Adran B (ailadrodd)	Adran A1 (ailadrodd)	Adran A2 (ailadrodd)	Coda
Barrau:					
1 - 6	7 - 22	24 - 39	40 - 69	70 - 89	91 - 93
Codau agoriadol	Thema 'w' Thema 'x'	Thema 'y' Thema 'z'	Datblygiad	Estynedig	Casgliad byr

Offeryniaeth:

Cerddorfa Linyddol

(Feiolin 1, feiolin 2, fiola, sielo 1, sielo 2 a bas dwbl)

Triong! (offeryn taro heb ei diwnio).

YR OES RAMANTAIDD (1810 – 1900)

Rhythm:

amser triphlyg syml

3/4

Tri churiad crosiet ym mhob bar [h.y. ♩ ♩ ♩]

Defnyddir rhythmau syml drwyddi draw, a defnyddir rhai rhythmau dotiog yn effeithiol yn yr adran gyferbyniol.

Cefndir:

Cyfansoddwyd gan **Edvard Grieg** (1843-1907), cyfansoddwr o'r cyfnod **Rhamantaidd** mewn cerddoriaeth, a gaiff ei ystyried gan lawer fel un o brif gyfansoddwyr yr oes.

Yn **1875**, cyfansoddodd gerddoriaeth atodol ar gyfer drama gan y dramodydd enwog Henrik Ibsen o'r enw 'Peer Gynt'. At ei gilydd, ysgrifennodd 26 o symudiadau, a defnyddiwyd pedwar ohonynt i greu Suite No.1 (Opus 46) ym 1888.

Anitra's Dance oedd y 3^{ydd} symudiad yn y gyfres hon.



Gwead:

Homoffonig yn bennaf – alaw a chyfeiliant.
Monoffonig ar ddiwedd Adran A (barrau 19-22)
Defnyddir **efelychiant** (e.e. bar 70).

Harmoni:

Diatonig yn bennaf (e.e. bar 7-10)
Cromatig mewn rhai rhannau (e.e. barau 15-17)
Mae'r harmoni yn ddiddorol.
Defnyddir cordiau o'r cywair A leiaf, ond noder hefyd y nodau anghytgord ar rai o'r cordiau llywydd (e.e. defnyddir nodau 7fed a 9fed yn y frawddeg agoriadol, barrau 6³-10, ac mewn brawddegau tebyg ar ôl hynny).

Enghreifftiau o ddiweddebau

Diweddeb berffaith mewn cywair A leiaf (bar 10)

Diweddeb berffaith mewn cywair E leiaf (bar 22)

Nodweddion harmonig eraill

Cordiau cywasg (barrau 28-31 a 32-35)

Cylch pumedau

E fwyaf (b.24) → A fwyaf (b.32) → D fwyaf (b.40)

Nodau pedalau (e.e. barrau 7-13, 14-18, 24-28 ac ati).

Tempo:

Tempo di Mazurka/Molto Allegro

Dawns fywiog (waltz) – 160 bpm

Tempo yn arafu ym mar 68-69 (*poco rit*), ac yn dychwelyd i'r tempo gwreiddiol ym mar 70 (*a tempo*).

Cyweiredd:

Y prif gywair yw **A LEIAF** (a elwir yn gywair tonydd/ cywair cartref).

Noder y trawsgyweiriadau i **E leiaf** (bar 19), **E fwyaf** (bar 24), **A fwyaf** (bar 32), **D fwyaf** (bar 40), a **D leiaf** (bar 50).

Alaw:

*y ddwy yn **gysylltiol** (fesul cam) ac yn **ddigyswllt** (yn defnyddio cyfyngau)
*defnydd o anacrwsis (y curiad i fyny)
*yn defnyddio addurniadau i liwio
*yn cwmpasu ystod traw eang yn gyffredinol.

Caiff **pedwar** syniad eu nodi:

Thema 'w'



Thema 'x'



Thema 'y'



Thema 'z'



Dynameg:

Yn amrywio o **pp** (*pianissimo* – ysgafn iawn) i **f** (*forte* – cryf).

Crescendo (codi cryfder y sain yn raddol) a **diminuendo / decrescendo** (gostwng cryfder y sain yn raddol) - defnyddir y ddau drwy gydol y darn.